



Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol: adroddiad yr ymweliad monitro â Choleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, Mai 2019

Canlyniad yr ymweliad monitro

1 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad blynyddol ac yn ystod yr ymweliad monitro, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor yn gwneud cynnydd derbyniol o ran parhau i fonitro, adolygu a gwella ei ddarpariaeth addysg uwch ers ei adolygiad o dan y dull [Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol](#) ym mis Mai 2018.

Newidiadau ers yr ymweliad adolygu diwethaf gan QAA

2 Mae Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor ('y Coleg') yn bartneriaeth rhwng Grŵp Addysg Ryngwladol Rhydychen [Oxford International Education Group] ('y Grŵp') a Phrifysgol Bangor ('y Brifysgol'). Sefydlwyd y bartneriaeth i gynyddu nifer ac amrywiaeth y myfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r Coleg wedi gweld cynnydd o 28% yn y nifer gyfan o gofrestrïadau myfyrwyr o flwyddyn academaidd 2017-18 hyd y pwynt hwn ym mlwyddyn academaidd 2018-19, a bydd rhagor o gofrestrïadau ym mis Gorffennaf 2019. Pan gafwyd yr ymweliad, roedd tri o'r myfyrwyr wedi gadael eu cyrsiau ac roedd 28 o'r myfyrwyr wedi cwblhau eu cyrsiau. Mae cyfanswm o 18 o staff yn cefnogi'r rhaglenni, gan gynnwys 14 o staff rhan amser, sy'n gyfwerth â 5.75 o staff llawn amser, yn cyfranogi'n uniongyrchol yn y gwaith o addysgu'r ddarpariaeth. Dim ond un newid a gafwyd ers yr adolygiad diwethaf gan QAA ym mis Mai 2018. Pan gafwyd yr ymweliad diwethaf gan QAA, roedd gan y Coleg Gyfarwyddwr dros dro, ac yn dilyn hynny cymerwyd ei le gan Bennaeth yr Adran Saesneg a ddaeth yn Gyfarwyddwr y Coleg ym mis Awst 2018.

Canfyddiadau'r ymweliad monitro

3 Ffurfiodd y tîm gasgliad yr adolygiad drwy ddarllen y Ffurflen Fonitro Flynyddol, adolygu'r dystiolaeth ddogfennol a chyfarfod â'r staff a'r myfyrwyr. Yn ei adolygiad diwethaf, derbyniodd y Coleg ddau argymhelliad yr oedd QAA yn eu hystyried yn 'fuddiol', ac mae'r ddau argymhelliad wedi'u cyflawni. Mae gwaith y Coleg yn cael ei graffu ymhellach gan y Brifysgol sy'n gorff dyfarnu iddo, ac mae hynny'n sicrhau gwelliannau i brofiad ei fyfyrwyr. Mae'r Coleg yn gweithredu proses dderbyn sy'n glir, yn deg ac yn gadarn, sy'n rhoi ystyriaeth i *Bennod B2* Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), ac sydd wedi'i disgrifio yn ei bolisiau a'i weithdrefnau. Mae ei weithdrefnau ar gyfer gosod a safoni gwaith a asesir a rhoi adborth arno'n cydymffurfio'n llawn â rheoliadau'r Brifysgol, ac roedd y myfyrwyr a welwyd yn deall y meini prawf asesu a sut i osgoi llên-ladrad. Roedd adroddiadau data'n dangos cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr ynghyd â chyfraddau uchel o gadwraeth, cwblhad a chyflawniad myfyrwyr. Er ei fod yn gweithio'n agos â'r Brifysgol, mae'r Coleg yn parhau i roi ystyriaeth i bwytiau cyfeirio allanol.

4 Yn ei adolygiad o dan y dull Goruchwyliaeth Addysgol - Trefniadau Eithriadol (GATE) yn 2018, derbyniodd y Coleg ddau argymhelliad 'byddai'n fuddiol' gan QAA. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn gofyn bod y darparwr yn trafod gyda'r Brifysgol yr angen am nodi lefel y rhaglen yn glir ar y trawsgrifiad a gyflwynir i'r myfyrwyr. Yn dilyn yr adolygiad diwethaf, trafodwyd ffurf

y trawsgrifiad yng nghyfarfod Gweithredoedd Prifysgol Bangor ym mis Awst 2018, yng nghyfarfod y Cyd-Fwrdd Rheoli ym mis Hydref 2018, ac yng nghyfarfod Systemau'r Coleg a Phrifysgol Bangor ym mis Ionawr 2019. Yn yr olaf o'r rhain, cytunwyd i gynhyrchu trawsgrifiad sy'n cynnwys lefel y rhaglen a'r modiwlau unigol, o'r flwyddyn academiaidd nesaf (2019-20) ymlaen.

5 Roedd yr ail argymhelliad 'byddai'n fuddiol' yn gofyn bod y darparwr yn ceisio eglurhad gan y Brifysgol, ac yn esbonio'n glir i'r myfyrwyr, beth yw'r rheoliadau sy'n berthnasol i'r graddau integredig. Cafodd y Llawlyfr Myfyrwyr ei ddiwygio i nodi bod Rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer Rhaglenni a Addysgir yn berthnasol i'r rhaglenni Baglor Integredig Rhyngwladol a Meistr Integredig Rhyngwladol. Roedd y mwyafrif o'r myfyrwyr a welwyd yn ystod yr ymweliad monitro wedi derbyn eu llawlyfr cyn iddynt gyrraedd, ac roeddent oll yn cadarnhau bod y manylion rheoleiddiol hynny wedi cael eu trafod yn ystod proses ymsefydlu'r Coleg.

6 Yn 2017, aeth y Grŵp ati i gyflwyno Pwyllgor Ansawdd y Grŵp sy'n dod â'r Cyfarwyddwr Canolfan o bob un o'i bedair partneriaeth at ei gilydd i adolygu a gwella'r ddarpariaeth academiaidd, gweithredu'r prosesau mewnol, a sicrhau ansawdd profiad y myfyrwyr, oll drwy waith parhaus o gynllunio camau gweithredu ar lefel y Colegau. O ganlyniad i'r gwaith hwn o rannu arferion da, mae'r Coleg wedi diwygio ei lawlyfr myfyrwyr, wedi cyflwyno tasgau arsylwi opsiynol yn rhan o'r prosiect hyfforddi athrawon mewn swydd 'INSETT', ac wedi integreiddio meddalwedd diogelu gonestrwydd academiaidd i mewn i'w rith-amgylchedd dysgu.

7 Rheolir y broses o ddethol a derbyn myfyrwyr i'r Coleg gan Bolisi Derbyniadau'r Grŵp, sydd yn ei dro'n cael ei dywys gan *Bennod B2* y Cod Ansawdd. Yn unol â'r Cytundeb Cydweithio, mae'r Coleg yn rhannu'r cyfrifoldeb am dderbyn myfyrwyr i raglenni gyda'r Grŵp, ond y Brifysgol sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol. Mae'r Grŵp yn rheoli'r broses dderbyn hyd y pwynt pan wneir cynnig, ac yna mae tîm Derbyniadau Llwybrau canolog y Grŵp yn penderfynu canlyniad y ceisiadau hynny. Mae'r Pennaeth Derbyn a Chyfnawid a'r Rheolwr Derbyn yn gwneud gwiriadau dirybudd yn rheolaidd i sicrhau cywirdeb y broses dderbyn, fel y gwelir yn y Llawlyfr Derbyniadau. Mae'r staff Derbyniadau Llwybrau'n derbyn hyfforddiant gorfodol, ac mae polisi Hyfforddi a Datblygu Staff i'w gael ar gyfer datblygu'r staff parhaol a'r gweithwyr dros dro i gyd. Mae'r hyfforddiant i asiantau, cynrychiolwyr a phartneriaid y Grŵp yn cynnwys gweminarau, teithiau ymglyfarwyddo, ymweliadau â'r Deyrnas Unedig a mynychu Cynhadledd Farchnata'r Grŵp.

8 Mae meini prawf mynediad academiaidd yn cael eu cytuno ar y cyd â'r Brifysgol wrth ddilysu cwrs a chyn cychwyn recriwtio myfyrwyr, ac mae'r rhain i'w gweld yn llyfryn y Coleg. Mae'r meini prawf o ran safonau iaith Saesneg y mae angen i fyfyrwyr Haen 4 eu bodloni er mwyn cael mynediad wedi'u llywio gan reoliadau'r Swyddfa Gartref / rheoliadau Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI), ac mae'r Grŵp yn gweithredu Profion Iaith Saesneg Diogel (SELT) a'r System Profi Iaith Saesneg Ryngwladol (IELTS). Rhaid i unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i feini prawf derbyn gael eu dilysu'n llawn gan y Brifysgol, ac yna rhoddir gwybod am y newidiadau hynny i Uned Recriwtio Fyd-eang y Grŵp sy'n gyfrifol am recriwtio a marchnata. Adolygir gwefan y Coleg yn rheolaidd i sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael arni'n gywir, ac roedd y sylwadau gan y myfyrwyr yn canmol y wefan am fod yn gynhwysfawr ac eglur. Roedd y myfyrwyr a welwyd o'r farn bod y broses ymgeisio'n hawdd, ac eithrio materion yn ymwneud â fisâu.

9 Mae trefn briodol ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn, ac mae'r drefn hon a'r drefn gwyno wedi'u disgrifio ym Mholisi Derbyniadau'r Grŵp.

10 Gan diwtoriaid y Coleg y mae'r cyfrifoldeb am asesiadau, o dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr y Coleg a'r Cyfarwyddwr Academiaidd. Gweithredir y broses safoni fewnol sydd wedi'i disgrifio yn y Canllawiau Safoni Mewnol gan diwtor academiaidd arall, Cyfarwyddwr y Coleg a'r Cyfarwyddwr Academiaidd, gan ddefnyddio gwefan benodol ar gyfer safoni asesiadau ar y rhith-amgylchedd dysgu.

11 Mae aseiniadau a sgriptiau arholiad yn cael eu hadolygu a'u llofnodi gan arholwyr allanol. Rhoddir y sgriptiau wedi'u llofnodi ar y rhith-amgylchedd dysgu, ond hoffai'r Coleg weld y gwaith craffu'n digwydd yn gyflymach. Er mwyn sicrhau gwaith craffu cyflymach, mae'r Coleg wedi cymryd camau gweithredu i annog yr arholwyr allanol i fod yn fwy rhagweithiol drwy ymgylfarwyddo â'r rhith-amgylchedd dysgu mor gynnar ag sy'n bosibl, ac mae wedi cynyddu amseriad y mynediad i asesiadau.

12 Mae'r safonwr mewnol hefyd yn gweithredu fel yr ail farciwr ar gyfer sampl gyfatebol o'r sgriptiau. Ar ôl eu hail farcio, rhoddir y sgriptiau ar y wefan safoni asesiadau i gael eu hadolygu gan yr Arholwr Allanol. Derbynnir y sgriptiau wedi'u marcio a'u cytuno'n derfynol gan y Cyfarwyddwr Academaidd sy'n gweithredu fel y Cydlynnydd Arholiadau ac sy'n darparu casgliad o'r holl asesiadau, papurau arholiad a phapurau cysylltiedig i'r Bwrdd Arholwyr. Mae'r Cydlynnydd Arholiadau'n gyfrifol hefyd am drefnu'r amserlen arholi, amserlennu gwaith y goruchwylwyr, a sicrhau bod deunyddiau arholi ar gael.

13 Mae'r Coleg yn cydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol ar gyfer asesu a rhoi adborth. Mae'r Coleg yn defnyddio ystod o ddulliau asesu er mwyn galluogi i'r myfyrwyr ddangos eu bod wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu sydd wedi'u nodi ym manylebau'r modiwlau, ac roedd gan y myfyrwyr a welwyd ddealltwriaeth glir o'r dulliau hynny.

14 Mae ei bolisi ar gyfer ymdrin â llên-ladrad wedi'i ddisgrifio yn y Llawlyfr Myfyrwyr, ac mae Llawlyfr Academaidd y Coleg yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i osgoi llên-ladrad. Hefyd, cymerwyd camau gweithredu i atal camymddygiad, er enghraifft drwy ddarparu modiwlau a addysgir sydd â chanlyniadau dysgu sy'n benodol berthnasol i ysgrifennu academaidd, a thrwy ofyn am gyflwyno unrhyw asesiadau wedi'u teipio yn ystod y cyrsiau gan ddefnyddio meddalwedd diogelu gonestrwydd academaidd.

15 Wedi i bob carfan gwblhau eu cyrsiau, mae'r Coleg yn gyfrifol am drefnu Byrddau Arholi Mewnol (Cyn-fyrddau) a'r Bwrdd Arholwyr - dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Coleg, a gyda'r Cyfarwyddwr Academaidd a thiwtoriaid y Coleg yn bresennol.

16 Mae'r Coleg wedi cynyddu nifer y myfyrwyr a dderbynnir ganddo o flwyddyn i flwyddyn, gyda chynnydd o 28% ym mlwyddyn academaidd 2018-19 o'i gymharu â ffigur y flwyddyn flaenorol, a bydd pwynt cofrestru arall ym mis Gorffennaf. Mae 24% o'r holl fyfyrwyr cofrestredig yn astudio ar raglen 'International Year Zero', 31% ar raglen 'International Year One' a 45% ar raglen Meistr Integredig Rhyngwladol.

17 Hefyd, gall y Coleg ddangos cyfraddau uchel o gadwraeth, cwblhad a phasio, gyda 90% o'r myfyrwyr yn cwblhau cam 1 eu rhaglen integredig ym mlwyddyn academaidd 2017-18, a 100% o'r rheiny'n pasio. Mae 94% o'r rheiny a gwblhaodd wedi mynd ymlaen i gam 2 eu rhaglen integredig yn y Brifysgol. O'r garfan gyntaf o naw myfyriwr ar gwrs gradd meistr oedd ar fin graddio o'r Brifysgol ym mis Rhagfyr 2018, llwyddodd pob un ohonynt, a derbyniodd pump ohonynt deilyngdod, ac mae hyn yn dangos lefelau uchel o gyflawniad gan y myfyrwyr.

Cynnydd o ran gweithio gyda'r pwyntiau cyfeirio allanol er mwyn cyflawni disgwyliadau'r DU mewn perthynas ag addysg uwch

18 Mae'r Coleg yn parhau i gael ei hysbysu gan bwyntiau cyfeirio allanol yn ei waith o ail-ddilysu a datblygu rhaglenni ar y cyd gyda'r Brifysgol. Yn arbennig, gwelwyd tystiolaeth sy'n dangos bod manylebau eu rhaglenni a'u modiwlau'n cyfeirio at *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC) a Datganiadau Meincnodi Pwnc, ac mae'r modiwlau iaith Saesneg yn adlewyrchu gofynion *Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop* (CEFR).

Cefndir yr ymweliad monitro

19 Mae'r ymweliad monitro'n gweithredu fel gwiriad byr o'r ffordd mae'r darparwr yn parhau i reoli safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth. Mae'n canolbwyntio ar y cynnydd a gafwyd ers yr adolygiad blaenorol. Yn ogystal, mae'n rhoi'r cyfle i QAA hysbysu'r darparwr am unrhyw faterion a allai fod o ddiddordeb arbennig yn yr adolygiad neu'r ymweliad monitro nesaf.

20 Gwnaed yr ymweliad monitro gan Barbara Howell, Adolygwr, ac Ian Welch, Swyddog QAA, ar 14 Mai 2019.

QAA2394 - R10447 - Mehefin 19

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786

Ffôn 01452 557050
Gwefan www.qaa.ac.uk